

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Cambria Dental Practice

Dyddiad arolygu: 11 Tachwedd
2019

Dyddiad cyhoeddi: 12 Chwefror
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
3.	Beth nesaf?	26
4.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	28
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	29
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	31

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cambria Dental Practice yn 25 Eversley Road, Sgeti, Abertawe, SA2 9DB ar 11 Tachwedd 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Cambria Dental Practice yn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Roedd y cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog a dywedwyd wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân ac yn drefnus ac roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer dihalogi offer deintyddol.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon ragorol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais, yn dangos parch ac yn broffesiynol wrth ymdrin â chleifion
- Roedd y dderbynfa a'r ardaloedd aros wedi'u cyflwyno'n dda ac yn groesawgar ac roedd y cyfleusterau clinigol wedi'u cynnal yn dda
- Roedd y cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd asesiadau risg cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod y safle a'r cyfleusterau clinigol yn addas at y diben
- Roedd yr aelodau o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roeddent wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau
- Roedd y staff yn cael eu cefnogi gan drefniadau rheoli ac arwain da.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid cynnig mwy o wasanaethau iaith sy'n diwallu eu hanghenion i gleifion sy'n siarad Cymraeg

- Mae angen ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y cod ymarfer ar gyfer delio â chwynion gan gleifion
- Mae angen pecyn cymorth cyntaf newydd a'i wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob eitem yn bresennol ac o fewn ei dyddiad dod i ben
- Mae angen ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y polisi chwythu'r chwiban a'r polisi tanberfformio.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Cambria Dental Practice yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Abertawe a'r cyffiniau.

Mae'r practis yn cyflogi tîm mawr o 17 o aelodau o staff ac yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat a llawdriniaeth ar y geg i gleifion y GIG a gaiff eu hatgyfeirio gan ddeintyddion sy'n gweithio yn yr ardaloedd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn eu gwasanaethu.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roedd gan Cambria Dental Practice brosesau addas ar waith er mwyn helpu cleifion i gael profiad cadarnhaol yn y practis.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ysgrifenedig am gynnal iechyd da y geg i blant ac oedolion ar gael yn yr ardal aros.

Roedd gan y practis ddulliau da ar waith i gasglu adborth gan gleifion a gafodd eu defnyddio i fonitro ac asesu'r gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.

Gellid gwneud mwy er mwyn helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg yn unol â chanllawiau arfer gorau.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 16 o holiaduron.

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Practis gwych. Bob amser yn broffesiynol, mae gan y staff amser i'r cleifion a'u hymholiadau bob amser"

"Gwasanaeth Arbenigol Gwych ac rydym yn ffodus iawn o gael y GIG"

"Rwyf bob amser wedi cael gwasanaeth gwych, proffesiynol a chyfeillgar. Tîm ffantastig"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth dda o daflenni hybu iechyd ar gael yn yr ardaloedd aros er mwyn i'r cleifion eu darllen a mynd â nhw gyda nhw. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu a sut i gynnal iechyd da y geg ar gyfer plant ac oedolion.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y tîm deintyddol wedi dweud wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Gwelsom y staff yn siarad â chleifion yn bersonol a thros y ffôn mewn modd cwrtais a phroffesiynol. Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith yn y practis yn helpu i ddiogelu preifatrwydd y cleifion. Roedd desg y dderbynfa wedi'i lleoli wrth ymyl y drws ffrynt ac ar wahân i'r ardaloedd aros a oedd yn golygu bod y staff yn gallu cynnal sgysiau preifat â'r cleifion naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn heb gael eu clywed. Gwnaethom nodi bod y staff yn cau drws pob deintyddfa yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd gan y practis bolisi cyfrinachedd ar waith a oedd yn helpu'r staff i gydnabod pwysigrwydd cadw gwybodaeth y cleifion yn gyfrinachol ac yn disgrifio sut y dylid defnyddio gwybodaeth o'r fath.

Gwelsom fod copi o'r 9 Egwyddor¹ a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i arddangos yn y coridor wrth ymyl desg y dderbynfa er mwyn hysbysu'r cleifion o'r safonau gofal y dylent eu cael gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

¹ Mae 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod rhestr prisiau ar gyfer triniaethau preifat a gwybodaeth am daliadau ar gyfer cleifion y GIG wedi'i harddangos i gleifion yn yr ardaloedd aros. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am y gost cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Edrychom ar gopi o daflen wybodaeth i gleifion a datganiad o ddiben² y practis a gwelsom fod y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Mae gan y practis wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am dîm y practis a'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir ganddo. Dywedwyd wrthym fod y practis yn y broses o drefnu i gael copïau o'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben ar gyfer ei wefan yn unol â'r rheoliadau.

Gwelsom fod enwau a chymwysterau perthnasol y tîm deintyddol wedi'u harddangos yn y brif ardal aros yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai'n defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y cleifion nad Saesneg yw eu mamiaith i'w helpu i ddeall pob agwedd ar eu gofal a'u triniaeth.

Ni welsom unrhyw wybodaeth ysgrifenedig ar gael i gleifion yn Gymraeg. Rhaid i'r practis sicrhau y cynigir gwasanaethau iaith sy'n diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg fel rhan naturiol o'u gofal fel sy'n ofynnol gan y Safonau Iechyd a Gofal.

Lle y bo'n gymwys, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth sydd ar

² Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

gael ac yn teimlo eu bod yn gallu dewis faint roeddent am fod yn rhan o'r penderfyniadau am eu triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y cynigir gwasanaethau iaith sy'n diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg fel rhan naturiol o'u gofal fel sy'n ofynnol gan y Safonau Iechyd a Gofal.

Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC ond un yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu triniaeth mewn modd amserol yn ystod ein harolygiad. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiad wrth gyrraedd, neu cyn gynted â phosibl.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw gleifion y mae angen triniaeth frys arnynt yn ystod oriau gwaith yn cael eu gweld ar yr un diwrnod lle bynnag y bo modd. Caiff cleifion y mae angen gofal brys arnynt y tu allan i oriau eu cyfeirio at y gwasanaethau deintyddol a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Cadarnhaodd nifer o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Fodd bynnag, gwelsom fod gwybodaeth yn rhoi gwybod i gleifion sut y gallant gael gafael ar driniaeth y tu allan i oriau wedi'i harddangos yn y brif fynedfa, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn ystod yr arolygiad, cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cadw'n unol â chanllawiau proffesiynol. Gwelsom gynlluniau triniaeth ar gyfer y cleifion a oedd yn cynnwys nodiadau am yr opsiynau triniaeth a drafodwyd yn ystod apwyntiadau. Mae hyn yn unol ag arfer gorau ac yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth ddigonol i'w helpu i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu triniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Wrth fwrw golwg dros

gofnodion y cleifion, gwelsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau hanes meddygol yn cael eu dogfennu ym mhob apwyntiad yng nghofnodion y cleifion fel sy'n ofynnol yn ôl canllawiau proffesiynol.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â datganiad o ddiben y practis.

Hawliau pobl

Gwelsom fod polisi cyfle cyfartal a pholisi cydraddoldeb ar waith yn y practis, er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Roedd gan y practis hefyd bolisi yn nodi'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd yn glir bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau y gallai pob claf ddod i mewn i'r adeilad. Roedd ramp yn arwain at y drws ffrynt wedi'i osod ac roedd desg y dderbynfa, yr ardal aros a thoiledau addas i gadeiriau olwyn ar gael ar y llawr gwaelod. Roedd un deintyddfa i lawr y grisiau, ond dywedodd y staff wrthym y gwneir pob ymdrech i drin cleifion yn un o'r deintyddfeydd ar y llawr gwaelod os bydd angen.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod holiaduron papur ar gael i'r cleifion i roi adborth am eu profiadau, a oedd yn helpu'r practis i fonitro ansawdd y gwasanaethau deintyddol cyffredinol roedd yn eu darparu. Roedd y practis yn dosbarthu holiaduron Mesurau Canlyniadau y Rhoddir Gwybod Amdanynt gan Gleifion (PROMs) a Mesurau Profiadau y Rhoddir Gwybod Amdanynt gan Gleifion (PREMs) i'r cleifion a oedd wedi derbyn llawdriniaeth ar y geg. Gwelsom fod hyn yn ffordd wych o fonitro cynnydd ac effeithiolrwydd y gofal a'r driniaeth a ddarperir i'r cleifion.

Roedd y weithdrefn i'w dilyn gan gleifion a oedd am wneud cwyn neu godi pryder gyda'r practis am eu gofal wedi'i hamlinellu mewn cod ymarfer a oedd wedi'i arddangos yn y coridor wrth ymyl desg y dderbynfa. Gwelsom y byddai'n galluogi'r staff i ddelio â chwynion yn effeithiol ac yn amserol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y weithdrefn fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau er mwyn hysbysu'r cleifion sy'n derbyn triniaeth breifat y gallant gysylltu ag AGIC os nad ydynt yn fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'u cwyn.

Gwelsom fod taflenni Gweithio i Wella³ wedi'u harddangos yn yr ardaloedd aros er mwyn rhoi gwybod i'r cleifon sy'n derbyn triniaeth y GIG y gallant hefyd gysylltu â'r bwrdd iechyd os na ellir dod o hyd i ddatrysiad.

Gwelsom fod system ar waith i gofnodi unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol gan gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y cod ymarfer ar gyfer delio â chwynion gan gleifion.

³ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon gan gleifion am ofal a thriniaeth yn GIG Cymru.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd y cyfleusterau clinigol mewn cyflwr da, yn cynnwys adnoddau digonol, ac roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

Roedd mesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith, ac roedd gweithdrefnau ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offerynnau yn cyd-fynd â'r canllawiau arfer gorau diweddaraf.

Roedd y practis yn cyrraedd y safonau ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd cleifion yn cael gofal unigol sy'n canolbwyntio ar y claf wedi'i dogfennu yng nghofnodion y cleifion a oedd yn gynhwysfawr, yn gywir ac o ansawdd rhagorol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y practis bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben er mwyn helpu i ddiogelu llesiant y staff ac ymwelwyr â'r practis.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da ac roedd ardal y dderbynfa yn olau ac yn groesawgar. Roedd pob rhan o'r practis yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg. Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd asesiad risg iechyd a diogelwch cynhwysfawr wedi cael ei gynnal yn ddiweddar a gwelsom fod camau unioni wedi cael eu cymryd gan y staff i leihau risgiau posibl. Roedd poster iechyd a diogelwch wedi'u harddangos ym mhob

rhan o'r practis er mwyn hysbysu'r staff o'r ffordd orau i amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch personol yn y gweithle.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân priodol ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth o brofion er mwyn sicrhau diogelwch tân, gan gynnwys profion larymau tân a goleuadau argyfwng wythnosol, wedi'u cynnal a'u cofnodi mewn cofnodlyfr.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân ac roedd arwydd dim smygu wedi'i arddangos sy'n atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg⁴.

Roedd gan y practis bolisi parhad busnes fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau a oedd yn nodi'r cynlluniau wrth gefn a oedd ar waith i sicrhau y gallai'r practis barhau i weithredu'n ddiogel pe bai argyfwng neu drychineb naturiol. Roedd y cynllun yn cynnwys manylion cyswllt pob aelod o'r staff a chontractwyr busnes hanfodol mewn argyfwng, a nodwyd gennym fel arfer da.

Roedd y staff yn gallu newid mewn sawl ystafell y gellir ei chloi ym mhob rhan o'r practis er mwyn helpu i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd cyfleusterau hefyd ar gael i'r staff storio eu heiddo personol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom dystiolaeth bod mesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁵. Roedd ystafell ddihalogi ddynodedig i lawr y grisiau yn ogystal â lifft awtomatig ar y llawr

⁴ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

gwaelod i drosglwyddo offer yn uniongyrchol i'r ystafell dihalogi. Roedd yr ystafell yn lân ac yn daclus ac yn dilyn y llwybr dihalogi budr i lân.

Roedd gan y practis broses addas ar waith er mwyn sicrhau bod offer yn cael eu sterileiddio ymlaen llaw yn gywir. Yna roedd awtoclaf yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y broses sterileiddio awtomatig. Gwelsom fod y staff wedi bod yn cadw cofnodlyfr i ddogfennu'r gwiriadau dyddiol ac wythnosol a gwblhawyd er mwyn sicrhau bod yr awtoclaf yn gweithredu'n briodol ac yn bodloni'r gofynion dilysu.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau. Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn nodi'r mesurau rheoli heintiau gwahanol a oedd ar waith yn y practis, megis y trefniadau ar gyfer gweithdrefnau hylendid dwylo addas.

Gwelsom fod gwastraff peryglus (clinigol) o'r deintyddfeydd yn cael ei storio'n ddiogel a gwelsom dystiolaeth bod contract ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus o'r fath yn ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd unrhyw gyfleusterau ar gyfer cynhyrchion mislif yn nhoiledau'r practis. Rhaid i'r practis sicrhau bod biniau cynhyrchion mislif ar gael yn y toiledau priodol a bod unrhyw wastraff o'r fath yn cael ei waredu'n briodol yn unol â WHTM 07-01⁶.

Cawsom olwg ar gofnodion y staff a gwelsom fod gan bob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis statws imiwneiddio derbyniol rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid sicrhau bod biniau cynhyrchion mislif ar gael yn y toiledau priodol a bod gwastraff o'r fath yn cael ei waredu'n briodol.

Rheoli meddyginiaethau

⁶ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/254/WHTM%2007-01.pdf>

Gwelsom fod gweithdrefnau a threfniadau effeithiol ar waith yn y practis mewn perthynas ag ymdrin â meddyginiaethau, eu cadw'n ddiogel a'u gwaredu, a oedd wedi'u nodi mewn polisi rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol a oedd yn cynnwys y canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar gyfer dadebru er mwyn helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion. Roedd cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael ac roeddent yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁷. Roedd pob eitem yn cael ei storio'n briodol ac yn hygyrch i'w defnyddio mewn argyfwng, er enghraifft, pe bai claf yn llewygu. Roedd gwiriadau yn cael eu cynnal a'u dogfennu o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR). Roedd dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf i drin unrhyw fân anafiadau ymhlith y cleifion neu'r staff. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai'r practis brynu pecyn cymorth cyntaf newydd oherwydd roedd y pecyn cymorth cyntaf a welwyd gennym yn y practis yn anghyflawn ac yn cynnwys rhai eitemau a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben; yn y dyfodol, rhaid i'r pecyn cymorth cyntaf gael ei wirio'n rheolaidd gan staff hefyd er mwyn sicrhau bod yr holl eitemau yn bresennol ac o fewn eu dyddiad dod i ben.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol a brofwyd gan gleifion drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn⁸, er mwyn helpu MHRA i fonitro a yw cynhyrchion gofal iechyd yn cyrraedd lefelau diogelwch derbyniol i gleifion a'r rheini sy'n eu defnyddio.

⁷ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

⁸ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i becyn cymorth cyntaf newydd gael ei brynu a'i wirio'n rheolaidd gan y staff er mwyn sicrhau bod pob eitem yn bresennol ac o fewn ei dyddiad dod i ben.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi diogelu cyfredol ar waith ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Roedd y polisi yn cynnwys siartiau llif a oedd yn hysbysu'r staff am y camau i'w cymryd a'r asiantaethau y dylid cysylltu â nhw os bydd unrhyw faterion diogelu yn codi, a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer da.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff a ddywedodd wrthym y byddent yn trafod unrhyw bryderon diogelu, yn y lle cyntaf, â'r deintydd a oedd yn gyfrifol am faterion diogelu. Gwelsom fod pob aelod o'r staff naill ai wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed yn ddiweddar, neu wedi trefnu i wneud hynny yn fuan.

Gwelsom fod polisi recriwtio ar waith a oedd yn nodi'r gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gofyn am ddau eirfa gan gyn-gyflogwyr a thystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)⁹ er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn addas i weithio mewn practis deintyddol yn unol â'r rheoliadau.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol ym mhob deintyddfa wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da.

⁹ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel a chawsom sicrwydd fod y practis yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Roedd y tîm deintyddol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd Ïoneiddio
- roedd y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel
- roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith ac roedd y rheolau lleol¹⁰ wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y caiff amlygiad staff i ymbelydredd ei gyfyngu.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r practis wedi cynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol, ac yn parhau i'w cynnal, er mwyn helpu i fonitro a chyfrannu at y broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth o'r canlynol:

- Bod archwiliad o gydymffurfiaeth â chanllawiau arfer gorau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 ar ddihalogi yn cael ei gynnal yn flynyddol
- Bod archwiliadau o ddelweddau radiograffeg yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn er mwyn helpu i sicrhau bod ansawdd y delweddau yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol (70% gwyb, 20% derbyniol a dim mwy na 10% yn annerbyniol)

¹⁰ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

- Cwblhawyd archwiliad o'r gweithdrefnau tawelu ymwybodol a ddefnyddiwyd mewn triniaethau yn ddiweddar i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir a'r canlyniadau i'r cleifion eu cyflawni.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn derbyn adborth 360 gradd bob blwyddyn gan weddill y staff sy'n gweithio yn y practis. Mae'r broses hon yn helpu'r staff i ddeall gwahanol agweddau ar eu perfformiad ac i nodi meysydd i'w newid er mwyn helpu i wella ansawdd cyffredinol y gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion.

Eglurodd y rheolwr cofrestredig fod y practis wedi holi ynghylch defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru¹¹ ond gwelwyd nad oedd yn cyd-fynd â'r gwasanaethau llawdriniaeth ar y geg a ddarperir yn y practis. Yn hytrach, caiff cyfarfodydd tîm misol eu cynnal i drafod amrywiaeth eang o bynciau gan gynnwys canfyddiadau o archwiliadau diweddar, canllawiau cenedlaethol a newidiadau i bolisiâu er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gwella eu safonau yn barhaus.

Cadarnhaodd y practis nad yw'n gwneud unrhyw waith ymchwil.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis amrywiaeth eang o bolisiâu ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal yn electronig a dywedwyd wrthym y gwneir copïau wrth gefn ohonynt yn rheolaidd er mwyn diogelu'r data gwreiddiol ac i sicrhau y gellir adfer y copïau gwreiddiol os byddai rhywbeth yn digwydd i'r systemau cyfrifiadurol.

¹¹Nod y Matrics Aeddfedrwydd yw helpu'r tîm deintyddol i gydweithio er mwyn nodi meysydd allweddol i'w gwella yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol a gofynion deddfwriaethol.

Gwelsom fod yr hen gofnodion cleifion papur yn cael eu cadw'n unol â'r canllawiau cadw perthnasol a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Cadw cofnodion

Nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad ein bod wedi edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod y practis yn cadw cofnodion clinigol rhagorol gan ddangos bod y gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu o safon uchel, ac yn helpu i gynnal diogelwch a llesiant deintyddol cleifion.

Roedd y cofnodion a adolygwyd gennym yn glir iawn, yn ddealladwy ac yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol am drafodaethau a gynhaliwyd ynglŷn ag opsiynau triniaeth, costau, risgiau, buddiannau a sut y gofynnwyd am gydsyniad cleifion. Nodwyd gennym fod y profion pelydr-X yn amserol ac o ansawdd da. Roedd y rhesymau dros gynnal profion pelydr-X a, lle y bo'n berthnasol, y rhesymau dros beidio â'u cynnal, wedi'u dogfennu'n glir yn y nodiadau.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda a oedd yn amlwg drwy gyfarfodydd staff misol ac arfarniadau staff blynyddol.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac roeddent yn cael y cyfleoedd hyfforddi priodol i'w galluogi i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion, a oedd wedi cael eu hadolygu, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd angen gwella'r polisi chwythu'r chwiban a thanberfformio rhywfaint.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Llawfeddyg geneuol arbenigol, sef yr unigolyn cyfrifol enwebedig¹² a'r rheolwr cofrestredig¹³, a phrif ddeintydd sy'n berchen ar Cambria Dental Practice. Caiff gefnogaeth gan dîm mawr o lawfeddygon geneuol a staff clinigol ac anghlinigol eraill. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau o dan y rheoliadau o ran unrhyw hysbysiadau y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC, er enghraifft os bydd claf yn cael anaf difrifol.

¹² Ystyr unigolyn cyfrifol yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017).

¹³ Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda a nodwyd gennym fod y staff yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd set gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol â'r rheoliadau. Dywedwyd wrthym fod dau bolisi yn cael eu hadolygu a'u trafod ym mhob cyfarfod tîm er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu hatgoffa o'r cynnwys a'u bod yn ymwybodol o'r prosesau sydd ar waith.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Gwelsom hefyd fod tystysgrifau wedi'u harddangos a oedd yn dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas a bod y practis wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

At ei gilydd, roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan y staff contract cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau a gwelsom fod y rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff. Roedd pob aelod presennol o staff y practis wedi cael gwiriad clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn helpu'r gwasanaeth i gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol sy'n nodi y dylai fod gan bob aelod o staff gymeriad da.

Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau wedi cael eu cynnal gyda phob aelod o'r staff yn flynyddol i'w helpu i ddeall eu perfformiad a nodi cyfleoedd hyfforddi i'w helpu i fodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Roedd rhaglen sefydlu ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn helpu aelodau newydd o staff i feithrin dealltwriaeth effeithiol o'u swydd newydd.

Gwnaethom sôn yn gynharach yn yr adroddiad fod cyfarfodydd tîm misol yn cael eu cynnal er mwyn rhoi cyfle i'r staff godi unrhyw bryderon sydd ganddynt o bosibl. Caiff cofnodion eu cymryd o bob cyfarfod a'u hanfon at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd, a gwnaethom nodi hyn fel arfer da.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban a thanberfformio ar waith a oedd yn galluogi'r staff i godi unrhyw bryderon am arferion gwaith a allai effeithio ar ofal y cleifion. Argymhellwn y dylid diweddarau'r polisi chwythu'r chwiban er

mwyn rhestru AGIC fel sefydliad y gall y staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddiweddarau ei bolisi chwythu'r chwiban i gynnwys manylion cyswllt AGIC fel sefydliad y gall staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

3. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

4. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Cambria Dental Practice

Dyddiad arolygu: 11 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cambria Dental Practice

Dyddiad arolygu: 11 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis sicrhau y cynigir gwasanaethau iaith sy'n diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg fel rhan naturiol o'u gofal fel sy'n ofynnol gan y Safonau Iechyd a Gofal.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 3.2	Rwyf wedi anfon e-bost i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe i ofyn a oes ganddo daflenni "Gweithio i wella" Cymraeg a lle y gallaf gael gafael ar daflenni gwybodaeth Cymraeg i gleifion deintyddol ar gyfer y practis. Rwy'n hapus i gefnogi'r ymdrech i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy aml gan fy mod i'n dysgu Cymraeg. Fodd bynnag, er mwyn darparu'r adnoddau hyn yn	Rhian Jones Llawfeddyg Geneuol Pherchennog Practis a y	Aros am ymateb gan y Bwrdd Iechyd Lleol

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Gymraeg, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cynnyrch hwn ar gael. Rwyf wedi ceisio cael gafael ar daflenni gwybodaeth Gymraeg i gleifion deintyddol ond nid wyf wedi llwyddo. Rwy'n aros am ymateb gan y Bwrdd Iechyd Lleol ar y mater hwn. Fel y soniwyd wrth yr arolygydd, rwy'n gallu cynnal sgwrs yn Gymraeg ond ni fyddwn yn hyderus yn cynnal sgwrs glinigol yn Gymraeg gan mai diogelwch y cleifion yw'r brif flaenoriaeth. Caiff ymgeiswyr â sgiliau Gymraeg eu hystyried wrth recriwtio staff yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn trafod a yw'r staff yn hapus i ateb y ffôn â chyfarfchiad Gymraeg er na fyddent yn gallu parhau â'r sgwrs yn Gymraeg		
Rhaid i'r practis ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y cod ymarfer ar gyfer delio â chwynion gan gleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad	Yn ystod y sesiwn adborth yn dilyn yr arolygiad, cawsom wybod bod y wybodaeth hon ar goll o'r polisi ac mae'r polisi wedi'i ddiwygio ers hynny	Gareth Lewis Uwch Swyddog Gweinyddol	Cwblhawyd 26 Tachwedd 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	21(4a)			
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid sicrhau bod biniau cynhyrchion mislif ar gael yn y toiledau priodol a bod gwastraff o'r fath yn cael ei waredu'n briodol.	Canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith	Anfonwyd yr adroddiad hwn atom drwy e-bost ar 24 Rhagfyr (Noswyl Nadolig). Yn sgil gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, nid yw wedi bod yn gyfleus cysylltu â'n darparwr Gwastraff Clinigol tan heddiw (6 Ionawr 2020). Rydym wedi ei ffonio i ofyn iddo ychwanegu unedau cynhyrchion mislif ychwanegol at ein contract ac rydym yn aros am alwad yn ôl	Rhian Jones Llawfeddyg Geneuol a Pherchennog y Practis	Caiff ei gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr 2020
Rhaid i becyn cymorth cyntaf newydd gael ei brynu a'i wirio'n rheolaidd gan y staff er mwyn sicrhau bod pob eitem yn bresennol ac o fewn ei dyddiad dod i ben.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 22	Rydym wedi prynu dau becyn cymorth cyntaf newydd ac wedi cael gwared ar yr hen rai. Rydym wedi ychwanegu adran at restr wirio'r practis i sicrhau bod y pecynnau cymorth cyntaf yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu cynnwys o fewn eu dyddiadau defnyddio.	Rhian Jones Llawfeddyg Geneuol a Pherchennog y Practis	Cwblhawyd 18 Tachwedd 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheoliadau lechydd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r practis ddiweddarau ei bolisi chwythu'r chwiban i gynnwys manylion cyswllt AGIC fel sefydliad y gall staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 17(3e)	Mae manylion cyswllt AGIC wedi cael eu hychwanegu at y polisi Chwythu'r Chwiban	Rhian Jones Llawfeddyg Geneuol a Pherchennog y Practis	Cwblhawyd 6/1/20

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Rhian Jones

**Teitl swydd:
Cofrestredig**

Llawfeddyg Geneuol, Perchennog y Practis a'r Rheolwr

Dyddiad:

06 Ionawr 2020